

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Medi 1af 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eifion Davies, Gwenda Morris, a'r cler.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Eilir Rowlands ar yr anrhydedd o gael ei urddo i'r Orsedd ac am ei ymddangosiad ar y rhaglen Prynghawn Da yn ddiweddar.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Eilir Rowlands a'r Cyng. Elwyn Edwards.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mehefin a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

Nid oedd unrhyw fater i'w godi.

### **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

#### **a) Amrywiol.**

i) Dwr Cymru – datganiad yn ein cyngori o'i bwriad i wneud gwaith i warchod Capel Coffa Celyn.

ii) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i'r Cyngor gymryd rhan yn eu 'Prosiect Mynwentydd Byw Eryri'. Cytunwyd i ddatgan diddordeb y Cyngor yn y cynllun.

iii) Cyngor Cymuned Llanllyfni - Cais am gefnogaeth i'r syniad o godi tal am fynediad i'r Wyddfa. Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth y Cyngor.

iv) Ystâd Rhiwlas - cais i osod sgaffaldiau ym mynwent Llanfor er mwyn gwneud gwaith adnewyddu i Elland House. Nid oedd gan y cyngorwyr unrhyw wrthwynebiad i'r cais a chytunodd Rita Jones a Alwyn Jones i gyfarfod gyda'r asiant os byddai angen.

v) Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwahoddiad i lansiad ar-lein prosiect LIFE Afon Dyfrdwy CNC.

vi) Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun adnoddau coedwigoedd Llanfor a Celyn.

### **v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

C20/0421/04/LL:- Uned wyau buarth gydag ystafell pacio. Cae Pant, Llandderfel.

C20/0566/04/DT:- Estyniad ochr deulawr gyda linc unllawr. Ysgubor Fawr, Cefnddwysarn.

### **vi) Materion Ariannol.**

#### **a) Praesept.**

Derbyniwyd ail randal y Praesept o £4,500.

#### **c) Ceisiadau ariannol**

Derbyniwyd cais ariannol gan Marie Curie ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i aros tan y cyfarfod nesaf i'w drafod.

### **vii) Materion lleol.**

#### **a) Llyn Caereini.**

Daeth i sylw'r Cyngor fod Llyn Caereini yn cael ei alw'n Llyn Sarnau mewn hysbyseb ar y we. Cafwyd cadarnhad fod y Cyng. Elwyn Edwards wedi sicrhau fod y perchennog am ei gywiro.

b) Ymgynghoriad Adran 115, Stryd Fawr, Y Bala.

Mynegwyd pryder fod rhai busnesau ar y stryd fawr yn gosod byrddau a chadeiriau ar y palmant ac roedd prinder llefydd parcio. Roedd y Cyngor yn gefnogol iawn i'r busnesau lleol a oedd yn gwneud addasiadau yn ystod y cyfnod heriol yma ond roedd angen gwarchod y safleoedd parcio er mwyn i'r trigolion lleol fynychu'r holl siopau at y stryd fawr.

c) Derbyniwyd y cwynion isod i sylw Cyngor Gwynedd:-

- i) Wal gyferbyn a Neuadd Mynach – roedd nifer o gerrig yn rhydd yn y wal ac angen sylw.
- ii) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau be oedd y rheolau ynglŷn â caravanette's yn aros dros nos mewn cilfannau gan fod nifer yn gwneud hyn ger Llyn Celyn.
- iii) Dwr yn llifo ar draws y A494, cyn Braich Ddu - ers i'r coed cael eu clirio ar yr ochr uchaf roedd dipyn o ddwr yn llifo ar draws y ffordd a gyda'r gaeaf o'n blaenau roedd pryder y byddai'n rhewi ac yn achosi damwain.
- iv) Wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn ar y A494 - cerrig yn rhydd yn y wal a chwyn yn tyfu arni.
- v) Wal ar yr A494 odisa Ty Nant, Cefnddwysarn wedi cael ei hitio gan gerbyd ac angen sylw.
- vi) Coed ar ochr yr A4212 ger Llyn Celyn - roedd toriadau llynedd wedi gwella gweledd ar y ffordd ond erbyn hyn roedd y coed wedi dechrau tyfu'n ôl yn wyllt ac angen sylw.
- vii) Gwrych angen ei dorri ar y ffordd gefn o Landerfel i Ffridd y Llyn.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref  
6ed am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”**